OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1339

# Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

## RHAN 4

## Gofynion ar ddarparwyr awdurdod lleol o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu

### Parch a sensitifrwydd

**17.**—(1) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod plant sydd wedi eu lleoli gan y darparwr yn cael eu trin â pharch a sensitifrwydd.

(2) Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i—

(a) parchu preifatrwydd ac urddas y plentyn,

(b) parchu hawliau'r plentyn i gyfrinachedd,

(c) hybu ymreolaeth ac annibyniaeth y plentyn, a

(d) rhoi sylw i unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol (fel y'u diffinnir yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010([1])) y plentyn.

([1]) 2010 p. 15.